Atodiad 2
Telerau ac Amodau Penodi (Cymru)

Mae'r canlynol yn seiliedig ar y templed trawslywodraethol ar gyfer penodiadau i fyrddau cyrff cyhoeddus anadrannol

a. Dyletswyddau

Eglurir dyletswyddau Passenger Focus yn bennaf yn Neddf Rheilffyrdd 2005 a Deddf Rheilffyrdd 1993, Deddf Trafnidiaeth 2000 a Deddf Trafnidiaeth 1962. Gellir cael copïau o'r ddeddfwriaeth fwyaf perthnasol gan Passenger Focus neu gellir ei gweld ar wefan HMSO:

Deddf Rheilffyrdd 1993

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/43/contents

Deddf Trafnidiaeth 2000

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/38/contents

Deddf Rheilffyrdd 2005

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/14/contents

b. Bwrdd Passenger Focus

Fel aelod o Fwrdd Passenger Focus, bydd gennych gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau bod Passenger Focus yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a gytunwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a Gweinidogion Cymru, ac am hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill gan Passenger Focus. I'r perwyl hwn, ac er mwyn diwallu ei gyfrifoldebau corfforaethol ehangach, bydd y Bwrdd yn:

- gosod cyfeiriad strategol cyffredinol Passenger Focus o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a gytunir â'r Ysgrifennydd Gwladol;
- sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru'n cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol Passenger Focus neu ar hygyrchedd ei dargedau, a phennu'r camau sy'n angenrheidiol i ymdrin â newidiadau o'r fath;
- sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol i ddefnyddio cyllid cyhoeddus; bod y Bwrdd yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ei awdurdod statudol, ei fframwaith ariannol ac yn unol ag unrhyw amodau eraill yn ymwneud â defnydd o gyllid cyhoeddus; ac wrth wneud penderfyniadau, bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth i arweiniad yr Adran sy'n noddi (yr Adran Trafnidiaeth);
- sicrhau bod y Bwrdd yn cael ac yn adolygu gwybodaeth ariannol reolaidd yn ymwneud â rheoli Passenger Focus; yn cael ei hysbysu'n amserol am unrhyw

bryderon am weithgareddau Passenger Focus; ac yn darparu sicrwydd cadarnhaol i'r Adran ac i Lywodraeth Cymru bod camau priodol wedi'u cymryd mewn perthynas â phryderon o'r fath;

- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob achlysur, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r pwyllgor archwilio annibynnol i helpu'r Bwrdd i fynd i'r afael â'r risgiau ariannol a risgiau eraill sy'n wynebu Passenger Focus;

- gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, penodi Prif Weithredwr Passenger Focus, ac mewn ymgynghoriad â'r Adran, gosod amcanion perfformiad a thelerau cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â'r amcanion hyn i'r Prif Weithredwr sy'n rhoi pwyslais dyledus ar reolaeth a defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Bydd aelodau unigol o'r Bwrdd yn gweithredu'n unol â'u cyfrifoldeb ehangach fel Aelodau o'r Bwrdd - sef:

- cydymffurfio ar bob achlysur â'r Cod Ymarfer sydd wedi'i fabwysiadu gan Passenger Focus ac â'r rheolau'n ymwneud â'r defnydd o gyllid cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;

- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a geir yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er budd personol neu elw gwleidyddol, na cheisio manteisio ar wasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau personol neu fuddiannau unigolion neu gyrff cysylltiedig.

c. Tymor y Penodiad

Caiff y penodiad hwn ei wneud dan ddarpariaethau Adran 19(2) (b) Deddf Rheilffyrdd 2005. Bydd yn rhedeg am dymor o hyd at bedair blynedd.

Ar ddiwedd y tymor cyntaf, gellir ailbenodi'r deiliad swydd am ail dymor o hyd at bedair blynedd arall, yn amodol ar asesiadau perfformiad boddhaol fel yr eglurir ym Mharagraff g isod.

d. Terfynu'r Penodiad

Er mwyn cadw safonau uchel bywyd cyhoeddus y Weithrediaeth, gellir terfynu unrhyw benodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru os ydynt yn credu bod ymddygiad y sawl a benodwyd yn golygu nad yw'n unigolyn addas i ddal swydd aelod o fwrdd Passenger Focus. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth hefyd argymell i Weinidogion Cymru eu bod yn ystyried terfynu'r penodiad ar yr un sail. Yn benodol, ond heb gyfyngiad, mae'r penodiad hwn hefyd yn agored i'w derfynu gan Weinidogion Cymru os bydd y sawl a benodir:

a) yn mynd yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda'i gredydwyr;

b) yn analluog oherwydd salwch meddwl neu gorfforol i'r graddau bod ei gyfranogiad yn cael ei effeithio er gwaeth;

c) wedi dechrau ar gamau gweithdrefnol i sefyll am etholiad i Dŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdod Llundain Fwyaf neu Senedd Ewrop;

d) wedi bod yn absennol o gyfarfodydd am gyfnod o chwe mis oni bai bod hynny am resymau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;

e) ym marn Gweinidogion Cymru, yn anaddas neu'n analluog mewn rhyw ffordd arall i ymgymryd â swyddogaethau ei swydd benodedig;

f) drwy ei weithredoedd, ym marn Aelodau'r Cynulliad, wedi dwyn anfri ar Passenger Focus neu'n debygol o wneud hynny;

g) wedi'i gael yn euog o drosedd;

h) yn dilyn arfarniad blynyddol y Cadeirydd o'i gyfraniad, wedi derbyn canlyniad anfoddhaol.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cadw'r hawl i derfynu penodiad gyda thri mis o rybudd ysgrifenedig. Gallwch chi hefyd derfynu eich penodiad gyda thri mis o rybudd ysgrifenedig. Nid oes hawl i bensiwn na rhodd ariannol wrth derfynu ond cewch hawlio i gael ad-dalu unrhyw dreuliau teithio ac allan o boced ar y gyfradd gyfredol.

e. Cydnabyddiaeth

Y gydnabyddiaeth i aelod o Passenger Focus fydd £12,000 y flwyddyn yn seiliedig ar gyfraniad o bedwar diwrnod y mis o gymryd un mis gydag un arall (angen egluro hyn). Rhaid cytuno hyn gyda'r Cadeirydd, a thelir y gydnabyddiaeth yn fisol. Ni fydd y penodiad yn bensiynadwy. Bydd unrhyw newid mewn cydnabyddiaeth yn flynyddol yn cael ei gysylltu â dyfarniad cyflog blynyddol SCS (egluro hyn) sy'n weithredol o 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'r cyfan yn drethadwy a chyfrifoldeb Passenger Focus yw gwneud didyniadau PAYE mewn perthynas â threth incwm ac Yswiriant Gwladol, oni cheir cyfarwyddyd gwahanol gan Gyllid y Wlad neu'r Asiantaeth Cyfraniadau. Os yw'n briodol, chi fydd yn gyfrifol am drefnu awdurdod i beidio â gweithredu PAYE neu Yswiriant Gwladol.

f. Presenoldeb

Disgwylir i bob aelod o Passenger Focus fynychu cyfarfodydd y bwrdd yn rheolaidd. Gellir terfynu'r penodiad, heb rybudd, os caiff rhybudd presenoldeb oddi wrth y Cadeirydd ei anwybyddu a bod presenoldeb mor ysbeidiol i'r graddau bod rhediad da Passenger Focus yn cael ei amharu.

g. **Arfarniad Blynyddol**

Bydd angen i Weinidogion Cymru gael sicrwydd bod dyletswyddau eu Haelod Bwrdd etholedig yn cael eu cyflawni'n foddhaol. I'r perwyl hwn, rhaid i chi gymryd rhan mewn arfarniad blynyddol o'ch cyfraniad i Fwrdd Passenger Focus a chaiff hyn ei wneud gan Gadeirydd Passenger Focus a fydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru parthed parhau â'ch penodiad neu ailbenodiad, a fydd yn dibynnu ar ganlyniad boddhaol.

Disgwylir hefyd i chi gymryd rhan mewn ymarferion hyfforddi a datblygu i'r bwrdd, gan weithio gyda'r hyfforddwyr a benodir fel bo'r gofyn. Bydd rhybudd digonol am ymarferion hyfforddi a datblygu o'r fath yn cael ei roi i aelodau a chaiff lefelau cyfranogi eu hasesu fel rhan o arfarniad blynyddol pob aelod.

h. Treuliau a Chynhaliaeth

Caiff pob aelod o Fwrdd Passenger Focus hawlio'r canlynol:

- Costau teithio a chynhaliaeth o'ch gorsaf neu arhosfan bws lleol ac yn ôl i leoliad cyfarfod o'r bwrdd a/neu bwyllgor o'r bwrdd, gan gynnwys lwfansau dros nos os oes angen aros dros nos i fynd i'r cyfarfod (uchafswm trothwy'n gymwys)
- Costau Gofal dibynyddion;
- Costau teithio penodol mewn perthynas ag aelodau anabl

Ceir manylion pellach yn y Cod Aelodaeth.

i. **Ataliad**

Mae rheolau ataliad yn berthnasol i'r tâl a roddir i aelodau o fyrddau cyhoeddus os ydynt yn derbyn taliadau eraill o'r sector cyhoeddus. Os yw darpar aelod yn derbyn pensiwn sector cyhoeddus, gall y rheolau penodiadau cyhoeddus olygu bod rhaid atal y tâl mewn perthynas ag aelodaeth o'r bwrdd. Yn ymarferol, ni chaiff tâl ei atal oni bai bod un o'r canlynol yn gymwys:

a) caiff aelod ei benodi i fwrdd Passenger Focus sy'n gweithredu, neu sy'n cael ei dderbyn i'r un cynllun pensiwn gwasanaeth ag y mae'r aelod eisoes yn tynnu pensiwn ohono (ystyrir fod aelod o'r bwrdd y darperir trefniant pensiwn iddo drwy gydweddiad â chynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, yr oedd yn aelod ohono'n flaenorol, mewn cynllun pensiwn gwahanol ar ôl ymddeol ac felly ni fydd yr ataliad yn gymwys); neu

b) ymddeolodd yr aelod yn gynnar o wasanaeth cyhoeddus ac mae'n derbyn pensiwn, boed wedi'i chwyddo ai peidio, cyn oed pensiynadwy arferol y cynllun y telir y pensiwn ohono, ac nid yw'r pensiwn hwnnw wedi'i leihau'n actiwaraidd oherwydd ei fod yn cael ei dalu'n gynnar.

Bydd ataliad yn yr ail amgylchiad uchod yn dod i ben pan fydd y sawl a benodir yn cyrraedd oed pensiwn arferol yn y cynllun y telir y pensiwn ohono. Mae'n bosibl nad yw hyn yn berthnasol i chi, ond os ydych chi'n ansicr, dylech ymgynghori â Passenger Focus.

j. Atebolrwydd yr Aelod

Os caiff achos cyfreithiol ei ddwyn yn erbyn unrhyw aelod o Passenger Focus gan drydydd parti, bydd yr adran sy'n noddi (yr Adran Trafnidiaeth) yn cwrdd ag unrhyw rwymedigaeth sifil, gan gynnwys costau cyfreithiol rhesymol yr aelod, yr eir iddynt wrth ddiwallu ei swyddogaethau, oni bai bod yr aelod wedi ymddwyn yn fyrbwyll a chyhyd â'i fod wedi gweithredu'n onest ac yn ddiffuant.

k. Budd-daliadau Anafiadau

Pe bai unrhyw aelod yn dioddef anaf neu'n cael clefyd y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'w benodiad ac sy'n arwain at leihau ei allu i ennill arian, gallai fod (neu os bydd yr anaf neu glefyd yn arwain at farwolaeth, gallai ei ddibynyddion fod) yn gymwys i dderbyn budd-daliadau iawndal. Bydd y budd-daliadau hyn yn cyfateb yn fras i'r rheini yn Rhan 2 adran 11 Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

l. Ymddygiad

Rhaid i holl Aelodau'r Bwrdd ddeall a dangos ymrwymiad i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus ac mae ganddynt ddyletswydd o ran ymddygiad, priodoldeb a chyfrinachedd. Bydd yn ofynnol i chi fel amod eich penodi gadw at God Ymarfer Passenger Focus ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo. Gall y Bwrdd drafod ac awgrymu diwygiadau i'r Cod ond rhaid cytuno unrhyw newidiadau â'r Adran Trafnidiaeth.

m. Rhoddion a Lletygarwch

Disgwylir i'r holl aelodau sicrhau y gall derbyn unrhyw rodd neu letygarwch wrthsefyll craffu cyhoeddus, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010.

Dylid gwrthod rhoddion lle bo'n bosibl a dylid hysbysu tîm y Prif Weithredwr am unrhyw gynigion. Pe byddai'n anghwrtais neu am ryw reswm arall yn anodd peidio â derbyn, dylech hysbysu tîm y Prif Weithredwr am y rhodd, amcangyfrif o'i gwerth a'r rhoddwr. Rhaid i aelodau gymryd cyfrifoldeb personol i sicrhau bod cofnod yn cael ei osod yng nghofrestr lletygarwch Passenger Focus, a gedwir gan Passenger Focus. Yn yr un modd, dylid gofalu nad oes afradlonedd yn gysylltiedig â chiniawau gwaith a digwyddiadau cymdeithasol eraill.

n. Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i chi ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes sydd, neu y gellid canfod eu bod, yn dylanwadu ar eich barn wrth ddiwallu eich swyddogaethau.

Caiff y buddiannau hyn eu cynnwys mewn cofrestr o fuddiannau a gaiff ei chynnal gan Passenger Focus a rhaid i chi sicrhau bod eich cofnod yn gyfredol. Bydd yn ofynnol i chi ddiweddaru eich datganiad bob blwyddyn. Pe bai mater penodol yn peri gwrthdaro buddiannau rhaid i'r aelod hysbysu Cadeirydd Passenger Focus o flaen llaw a pheidio â chyfrannu mewn trafodaethau neu ystyriaeth o'r mater.
Fe'ch anogir i gofrestru eich buddiannau di-arian a buddiannau aelodau agos o'r teulu ac unigolion sy'n byw yn yr un cartref sy'n ymwneud yn agos â gweithgareddau Passenger Focus. Rhaid i chi hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol a Chadeirydd Passenger Focus cyn ymgymryd ag unrhyw benodiadau newydd a allai effeithio ar eich dyletswyddau fel aelod o Passenger Focus.

o. Penodiadau Busnes

Rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon nad oes gennych chi fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill a allai ragfarnu eich perfformiad fel Aelod o'r Bwrdd. Am y rheswm hwn, os ydych yn ystyried gadael y penodiad hwn i ymgymryd ag un arall yn y diwydiant rheilffyrdd, gofynnir i chi geisio caniatâd y Gweinidog cyn derbyn y penodiad. Dylid hefyd ceisio cymeradwyaeth i benodiad o'r fath o fewn chwe mis i adael Bwrdd Passenger Focus. Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried pob achos ar ei deilyngdod ei hun ond ni chaiff cymeradwyaeth ei atal yn afresymol. Os bydd y mater yn codi, gofynnir i chi hysbysu'r Prif Weithredwr am y manylion.

p. Gweithgaredd Gwleidyddol

Mae'r rheolau safonol canlynol am weithgareddau gwleidyddol aelodau o gyrff cyhoeddus yn berthnasol:

i. Ni ddylai aelodau o fyrddau, boed amser cyflawn neu ran amser, wasanaethu fel swyddogion â dyletswyddau gweithredol mewn unrhyw blaid wleidyddol.

ii. Dylai aelodau amser cyflawn ymatal rhag gweithgaredd gwleidyddol dadleuol.

iii. Yn amodol ar i. uchod, dylai aelodau rhan amser fod yn rhydd i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol, cyhyd â'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb, ac ymarfer doethineb priodol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith y byrddau y maent yn aelodau ohonynt. Ar faterion yn effeithio ar y gwaith hwnnw, ni ddylent fel arfer wneud areithiau gwleidyddol nac ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol eraill.

iv. Bydd Aelodau o Fyrddau, boed amser cyflawn neu ran amser, sydd hefyd yn Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, heb amheuaeth yn dymuno cael eu harwain yn eu hymddygiad yn y Tŷ gan y datganiad a wnaed gan yr Arglwydd Addison yn y Tŷ ar 21 Mawrth 1951.

v. Dylai holl aelodau byrddau fod yn rhydd i gynnal cysylltiadau ag undebau llafur, cymdeithasau cydweithredol, cymdeithasau masnach etc, i'r graddau nad yw cysylltiadau o'r fath yn gwrthdaro'n uniongyrchol â buddiannau'r byrddau y maent yn perthyn iddynt.

vi. Mae'r uchod yn gymwys yn yr un modd i weithgaredd gwleidyddol ar ran unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol.

vii. Dylai unrhyw aelod o fwrdd neu fyrddau sy'n ansicr ynglŷn â gweithrediad y rheolau hyn, neu am briodoldeb unrhyw weithgaredd gwleidyddol, geisio arweiniad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am eu bwrdd.

q. Anghymhwyso

Bydd darpariaethau Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn anghymhwyso aelodau o fwrdd Passenger Focus i fod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin a hefyd bydd darpariaethau Gorchymyn (Anghymhwyso) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010 yn anghymhwyso aelodau bwrdd Passenger Focus i fod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd aelodau'r Bwrdd hefyd yn anghymwys i fod yn aelodau o Senedd Ewrop drwy Ddeddf Etholiadau Seneddol Ewrop 2002.